



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

www.cymru.gov.uk

DEDDF TIROEDD COMIN 2006

ADRAN 46

CANLLAW I BWERAU GWEINIDOGION CYMRU MEWN PERTHYNAS Â GWEITHGAREDD AMAETHYDDOL ANAWDURDODEDIG

Noder nad yw'r ddogfen hon yn ganllaw cynhwysfawr i'r ddeddfwriaeth ac nad oes iddo statws cyfreithiol. Mewn achosion o ansicrwydd, cyfeiriwch at Ddeddf Tiroedd Comin 2006 neu ymgynghorwch â'ch cynghorydd cyfreithiol eich hun. Dim ond i Gymru y mae'r nodiadau canllaw hyn yn berthnasol.

Deddf Tiroedd Comin 2006

Cyflwyniad i Ddeddf Tiroedd Comin 2006 ("Deddf 2006")

Mae tua 175,000 hectar o dir comin yng Nghymru, sef 8.5% o arwynebedd y tir. Mae'r rhan fwyaf o'r tir hwn wedi'i gofrestru o dan Ddeddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 ac yn eiddo preifat, gyda thirfeddianwyr yn mwynhau eu hawliau yn amodol ar hawliau comin pobl eraill (e.e. hawliau i bori stoc). Caiff tir comin ei ddefnyddio'n bennaf at ddibenion amaethyddol ond mae hefyd yn cael ei werthfawrogi am ei gyfraniad at dreftadaeth naturiol a chenedlaethol Cymru, yn arbennig cadwraeth natur a chynefinoedd - mae 40% o'r tir comin wedi'i ddynodi'n Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA) ac mae 50% o'r tir comin o fewn ardaloedd tirwedd a warchodir Cymru (Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol).

Dilynodd Deddf Cofrestru Tiroedd Comin 1965 ddeddfwriaeth gynharach a luniwyd i warchod a rheoli tir comin a meysydd trefi a phentrefi. Diben Deddf 1965 oedd pennu cofrestrau tir comin a meysydd trefi a phentrefi cynhwysfawr a chofnodi manylion hawliau comin. Yn ymarferol, roedd y dasg o lunio'r cofrestrau hyn yn gymhleth, ac roedd diffygion yn y ddeddfwriaeth. Er enghraifft, cafodd rhywfaint o'r tir a gofrestrwyd dros dro ei ddileu'n anghywir, cafodd rhywfaint o dir comin ei esgeuluso ac felly ni chafodd ei gofrestru, a chofrestrwyd rhai hawliau pori gormodol mewn perthynas â chapasiti'r tir comin. Roedd y posibilrwydd o gywiro camgymeriadau o dan Ddeddf 1965 yn gyfyngedig - cadarnhaodd y Llys Apêl ¹, hyd yn oed pan oedd tir yn amlwg wedi'i gofrestru'n anghywir yn dir comin, nad oedd trefniadau ar waith i allu dileu tir o'r fath o'r gofrestr pan oedd y cofrestriad yn derfynol. Hefyd, nid oedd llawer o gyfle o dan Ddeddf 1965 i ddiweddarau'r gofrestr gyda digwyddiadau newydd ac, o ganlyniad i hyn, mae'r cofrestrau a gedwir gan awdurdodau lleol yn anghyfredol iawn.

Cyflwynwyd Deddf 2006 i gywiro llawer o ddiffygion Deddf 1965. Diben Deddf 2006 yw gwarchod tir comin a hyrwyddo ffermio cynaliadwy, mynediad cyhoeddus i gefn gwlad a buddiannau bywyd gwyllt. Mae'r broses o weithredu'r Ddeddf yn seiliedig ar bedair thema:

- Rhan 1 Cofrestru
- Rhan 2 Rheoli
- Rhan 3 Gwaith
- Rhan 4 Amrywiol (gan gynnwys Adran 46 - gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig)

¹ Coleg Corpus Christi, Rhydychen v Cyngor Sir Gaerloyw [1982] 3 All ER 995.

Mae'r canllaw hwn yn ymdrin yn benodol ag Adran 46 o Ddeddf 2006 - pwerau yn ymwneud â gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig.

Deddf Tiroedd Comin 2006: Rhan 4 - Amrywiol (Adran 46 - gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig).

Beth fydd Adran 46 yn ei wneud?

Mae Adran 46 o Ddeddf 2006 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddelio â sefyllfaoedd lle mae gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig yn cael eu cynnal ac yn achosi difrod i dir comin, a lle na all unrhyw un arall weithredu i'w rheoli. Nid oes unrhyw ddulliau dibynadwy wedi'u defnyddio gan gominwyr nac unrhyw grŵp arall â diddordeb i reoli neu reoleiddio niferoedd anifeiliaid neu arferion bwydo yn effeithiol, ac mae hyn wedi cael effaith ddifrifol ar dir comin mewn perthynas â:

- Rhwymedigaethau o dan Gyfarwyddeb Cynefinoedd Ewrop
- Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA)
- Adfer a chynnal cynefinoedd a phoblogaethau rhywogaethau o werth bioamrywiaeth uchel o dan Gynllun Gweithredu Bioamrywiaeth y DU.

Mae'r ffaith bod adran 46 wedi'i gweithredu yng Nghymru yn golygu y gellir cyflwyno hysbysiad i unrhyw un sy'n ymddangos fel petai'n cynnal gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig, neu'n achosi iddynt gael eu cynnal, ar dir comin cofrestredig neu feysydd gwyrdd cofrestredig penodol sy'n cael effaith andwyol ar fuddiannau personau sydd â hawliau dros y tir, y rhai sy'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu er budd y cyhoedd.

Yng nghyd-destun gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig, mae Deddf 2006 yn diffinio budd y cyhoedd fel a ganlyn:

- Cadwraeth natur;
- Cadwraeth y dirwedd;
- Gwarchod hawliau'r cyhoedd o ran mynediad i unrhyw dir;
- Gwarchod gweddillion archaeolegol neu nodweddion o ddiddordeb hanesyddol

Beth yw cwmpas Adran 46?

Gweithgareddau amaethyddol

Gellir diffinio amaethyddiaeth yn fras fel y broses o gynhyrchu bwyd ar gyfer pobl ac anifeiliaid, tyfu planhigion ar gyfer ffibr a thanwydd (gan gynnwys pren), a chynhyrchu cynhyrchion organig eraill (deunydd fferyllol, ac ati). Felly, mae gweithgareddau amaethyddol yn cynnwys y canlynol (ond nid ydynt yn gyfyngedig iddynt):

- garddwriaeth;
- tyfu ffrwythau;
- tyfu hadau;
- ffermio llaeth;
- bridio a chadw da byw (gan gynnwys unrhyw anifail a gedwir i gynhyrchu bwyd, gwlan, croen neu ffwr, neu at y diben o'i ddefnyddio i ffermio'r tir);
- defnyddio tir fel tir pori, tir dôl, tir helyg, gerddi masnachol a phlanhigfeydd;
- defnyddio tir ar gyfer coetir lle mae'r defnydd hwnnw'n ategol i'r gwaith o ffermio tir at ddibenion amaethyddol eraill.

Gweithgareddau amaethyddol anawdurdodedig

Mae Deddf 2006 yn cyfyngu ar gwmpas adran 46 i weithgareddau amaethyddol anawdurdodedig. Felly, dim ond pan fydd unigolyn yn cynnal gweithgareddau nad oes ganddynt awdurdod cyfreithiol i'w cynnal, ac nad ydynt wedi'u hawdurdodi gan unigolyn sy'n gallu rhoi awdurdod o'r fath y gall Gweinidogion Cymru ddefnyddio pwerau adran 46. Ymhlith yr enghreifftiau mae'r canlynol:

- Unigolyn nad oes ganddo hawliau comin yn pori stoc;
- Pori un math o anifail lle mae'r hawl yn gyfyngedig i rywogaethau eraill;
- Mynd y tu hwnt i hawliau comin;
- 'Benthyca' hawliau comin heb awdurdod cyfreithlon; neu
- Symud neu dorri llystyfiant heb awdurdod cyfreithlon.

Pryd y gall Gweinidogion Cymru arfer eu pwerau o dan adran 46 o Ddeddf 2006?

Ystyrir adran 46 o Ddeddf 2006 yn 'bŵer a ddefnyddir pan fetho popeth arall', ac mae angen ei arfer yn ôl disgrisiwn ar ôl i bob dull gweithredu arall gael ei ystyried a'i wrthod yn y pen draw.

Felly, bydd angen i'r rhai sydd am ddefnyddio adran 46 ddangos eu bod wedi ystyried pob opsiwn cyfryngu cyn cychwyn proses gyfreithiol. Bydd angen i gominwyr sydd am ddefnyddio adran 46 ddangos eu bod wedi ceisio datrys anghydfodau drwy:

- Trafodaethau â'r rheini sy'n gweithredu'n anghyfreithlon.
- Trafodaethau â thirfeddianwyr, cominwyr eraill, Cymdeithasau Tir Comin a Chynghorau Tir Comin (pan y'u sefydlir).
- Trafodaethau â'r awdurdodau lleol perthnasol, asiantaethau tir a'r undebau ffermio;
- Darparu unrhyw dystiolaeth ychwanegol (prawf o ddifrod) bod y tir comin lle mae'r gweithgaredd amaethyddol anghyfreithlon yn cael ei gynnal mewn perygl o gael effaith andwyol ar safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig; lle y ceir cysylltiadau â Glastir, bod y cynefinoedd mewn perygl o ganlyniad i weithgaredd anghyfreithlon o'r fath.

Bydd gan adran 46 y potensial i gyfrannu'n sylweddol at y gwaith o ddatrys anawsterau rheoli ar dir comin ac, mewn rhai achosion, dyma'r unig gyfrwng ar gyfer gwneud hynny.

Mae'r nodiadau canllaw a ysgrifennwyd i ategu Deddf 2006 yn awgrymu na ddylid defnyddio adran 46 pan fydd unigolyn yn arfer hawl comin y mae ganddo hawl iddi drwy gofnod yn y gofrestr tiroedd comin, hyd yn oed os yw'r unigolyn hwnnw'n gweithredu y tu hwnt i delerau cytundeb amaeth-amgylcheddol neu rwymedigaeth arall.

Bwriad adran 46 yw galluogi'r awdurdod cenedlaethol priodol (Gweinidogion Cymru) i ddelio â phroblemau lle mae pobl eraill a allai fod wedi gweithredu (megis y perchennog, y cominwyr neu Gynghorau Tir Comin lle maent yn bodoli) wedi methu â gweithredu i atal y gweithgaredd rhag digwydd, a bod perygl i fudd y cyhoedd yn y comin. Gellir defnyddio'r pŵer, er enghraifft, lle mae mwy nag un person wedi bod yn pori anifeiliaid ar y comin heb unrhyw hawl i wneud hynny, lle mae perchennog y tiroedd comin wedi methu â gweithredu, a lle mae perygl i fudd y cyhoedd yn y tir (er enghraifft, gorburi yn arwain at ddirywiad mewn perthynas â chadwraeth natur, neu anifeiliaid yn pori'n anghyfreithlon ar y comin ac yn bygwth gweithgaredd hamdden cyfreithlon).

Yn amlwg bwriedir i bori fod yn weithgaredd amaethyddol allweddol, ac mae gorbori gan y rheini sydd heb hawliau neu sydd â hawliau annigonol yn weithgaredd amaethyddol anawdurdodedig y mae angen ei reoleiddio.

Beth na fydd Adran 46 yn ei ddatrys

Ni fydd yn ateb i atal pob gweithgaredd anghyfreithlon megis gweithgareddau gwrthgymdeithasol - ceir wedi'u llosgi, tipio anghyfreithlon, mynd â cherbydau oddi ar y ffordd, beiciau cwad ac ati. Yn yr un modd, ni fydd adran 46 yn datrys problemau yn ymwneud â mynediad anawdurdodedig na gweithgareddau hamdden na rheoli tir at ddibenion eraill.

Sut y caiff y pwerau hyn eu gorfodi yng Nghymru?

Bydd Gweinidogion Cymru yn gorfodi adran 46 o Ddeddf 2006. Wrth benderfynu ar achosion bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried maint y gweithgaredd anawdurdodedig honedig. Bydd cadw'r pwerau hyn o fewn Llywodraeth Cymru yn sicrhau mwy o reolaeth dros y defnydd ohonynt ac yn sicrhau y ceir dull cyson ledled Cymru.

Sut y caiff yr 'Effaith Andwyol' ei hasesu?

Wrth asesu'r effaith andwyol ar fudd y cyhoedd bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried yn benodol effaith y gweithgaredd ar unrhyw nodweddion o ddiddordeb y gallai'r safle fod wedi'i ddynodi ar eu cyfer. Caiff pob achos ei asesu'n unigol a bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio ac yn ystyried cyngor gan gyrrff perthnasol yr ystyrir eu bod yn arbenigwyr yn y meysydd o'u dewis.

Pwy fydd yn cynrychioli unrhyw achos sy'n ymwneud â gwarchod yr amgylchedd hanesyddol?

Pan ystyrir camau gweithredu o dan adran 46 i warchod gweddillion archaeolegol neu nodweddion o ddiddordeb hanesyddol, bydd Gweinidogion Cymru yn ceisio ac yn ystyried cyngor gan Cadw.

Bydd fydd y broses ar gyfer y rheini sydd am alw'r pwerau i rym?

Er mwyn i'r pwerau gael eu galw i rym, yn gyntaf bydd yn rhaid profi bod unigolyn yn cynnal gweithgaredd amaethyddol, neu'n achosi i weithgaredd o'r fath gael ei gynnal oherwydd unrhyw drefniadau, ar dir sydd wedi'i gofrestru fel tir comin neu sydd wedi'i gofrestru fel maes tref neu bentref ac sy'n ddarostyngedig i hawliau comin. Byddai hefyd angen cadarnhau bod y gweithgaredd yn anawdurdodedig ac yn cael effaith andwyol ar y personau hynny sydd â hawliau ac sy'n meddiannu'r tir, neu'n cael effaith andwyol ar fudd y cyhoedd.

Mae sawl cam i'r broses o orfodi adran 46 fel y nodir yn y nodiadau canllaw sy'n ategu'r Ddeddf.

Cam 1

Y cam cyntaf yw dyfarnu bod y gweithgaredd amaethyddol dan sylw yn anawdurdodedig, naill ai gan nad oes gan yr unigolyn sy'n cynnal y gweithgaredd hawliau comin a/neu gan fod y gweithgaredd yn cael effaith andwyol ar fuddiannau'r unigolyn sydd â'r hawliau neu sy'n meddiannu'r tir neu fudd y cyhoedd. Byddai angen i'r rheini sydd am weithredu (perchenogion, cominwyr, awdurdodau lleol, cyrff corfforaethol ac unigolion) ddarparu tystiolaeth sy'n dangos bod pob ymgais wedi'i wneud i ddatrys unrhyw anghydfod yn ffurfiol yn y lle cyntaf, neu drwy gyfryngu.

Rhaid anfon ceisiadau am ddyfarniad yn erbyn gweithgaredd amaethyddol anawdurdodedig i'r Uned Tir Comin, yr Is-adran Datblygu Ffermydd, Llywodraeth Cymru, Llawr 1^{af}, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ i gynnal dadansoddiad cychwynol. Caiff ceisiadau nad ydynt yn weithgareddau amaethyddol, a hynny'n amlwg (h.y. beiciau cwad / mynd â cherbydau oddi ar y ffordd ac ati), eu gwrthod. Ymdrinnir ag achosion eraill gan 'grŵp arbenigol', a chaiff aelodau'r grŵp hwn eu dethol yn unol â'r achos dan sylw. Po fwyaf dadleuol yr achos, y mwyaf y bydd angen i Weinidogion Cymru alw ar dystion arbenigol. Caiff arbenigwyr eu galw o'r Arolygiaeth Gynllunio, yr Is-adran Cynaliadwyedd a Thystiolaeth Amgylcheddol, yr Is-adran Polisi Cefn Gwlad, Cadw, Cyngor Cefn Gwlad Cymru (CCGC), Swyddfeydd Cofrestru Tiroedd Comin Awdurdodau Lleol perthnasol, tystion Cyfreithiol ac unrhyw dystion arbenigol eraill a bennir ar sail natur y gweithgaredd sy'n cael ei herio. Cyfrifoldeb y grŵp arbenigol fydd pennu a oes achos a ph'un a oes angen cymryd camau pellach.

Cam 2

Gall Gweinidogion Cymru (fel yr awdurdod cenedlaethol priodol) gyflwyno hysbysiad (Atodiad A) naill ai i'r person sy'n cynnal y gweithgaredd anawdurdodedig neu i berson sydd wedi achosi iddo/iddi wneud hynny, er enghraifft person sydd wedi llogi contractwr. Gall yr hysbysiad ei gwneud yn ofynnol i'r rheini sy'n cynnal y gweithgaredd wneud un neu fwy o'r canlynol:

- Rhoi'r gorau i gynnal y gweithgaredd o fewn cyfnod rhesymol o amser fel y gellir ei nodi yn yr hysbysiad
- Peidio â chynnal unrhyw weithgaredd amaethyddol anawdurdodedig ar y tir y gellir ei ystyried yn niweidiol, nac achosi i weithgaredd o'r fath gael ei gynnal.
- Rhoi unrhyw wybodaeth i Weinidogion Cymru am weithgareddau amaethyddol a gynhelir neu a achosir ganddo/ganddi ar y tir, fel y gall fod yn rhesymol ofynnol.

Cam 3

Wrth gyflwyno'r hysbysiad, bydd yn ofynnol i Weinidogion Cymru, i'r graddau ei bod yn briodol ac yn ymarferol, roi cyhoeddusrwydd i'w bwriad i gyflwyno'r hysbysiad. Y bwriad yw rhoi o leiaf 4 wythnos o rybudd a gwahodd cynrychioliadau gan unrhyw rai o'r canlynol:

- Unrhyw un sydd â swyddogaethau sy'n ymwneud â rheoli a chynnal y tir.
- Unrhyw un sy'n ymddangos i'r awdurdod fel petai'n berchen ar y tir neu'n ei feddiannu neu unrhyw ddeiliaid hawliau eraill.
- Unrhyw Gyngorau Tir Comin (ar ôl gweithredu deddfwriaeth yn caniatáu i gyngorau o'r fath gael eu sefydlu) neu gymdeithas cominwyr.

Cam 4

Os yw'r person y cyflwynir yr hysbysiad iddo yn methu â chydymffurfio ag ef, bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud cais i'r Llys Sirol am orchymyn sy'n ei gwneud yn ofynnol iddo wneud hynny. Gall y llys wneud gorchymyn o'r fath at ddiben sicrhau cydymffurfiaeth â'r hysbysiad os yw hynny'n briodol yn ei farn ef.

Cyhoeddusrwydd a Materion Gweithdrefnol

Byddai Gweinidogion Cymru yn ystyried unrhyw weithdrefnau sifil neu droseddol sydd wedi'u rhoi ar waith neu eu cynnig mewn perthynas â'r gweithgaredd, ac unrhyw gamau gweithredu y gallai cymdeithas / cyngor tir comin fod wedi'u cymryd i ddelio â'r gweithgaredd anawdurdoedig cyn penderfynu arfer y pŵer sydd ar gael iddynt o dan yr adran hon.

Cwestiynau cyffredin - pryd y gellid defnyddio Adran 46?

Mae rhestr o gwestiynau sydd wedi'u gofyn i ni mewn perthynas â phryd y gellid defnyddio adran 46 neu bryd na ellid ei defnyddio wedi'i chynnwys yn Atodiad B. Nid yw'r rhestr yn un gynhwysfawr; ei diben yw rhoi arweiniad o ran y camau y gellid eu cymryd. Bydd angen edrych ar bob achos yn unigol a bydd angen i'r rhai sy'n ceisio defnyddio adran 46 ofyn iddynt hwy eu hunain gwestiynau penodol o ran a ellir dosbarthu'r gweithgaredd yn un amaethyddol a dangos bod pob ymgais wedi'i wneud i ddatrys problemau ac anghydfodau.

Mae siart llif wedi'i gynnwys yn Atodiad C i helpu'r rhai sy'n cyflwyno ceisiadau i bennu a yw'r gweithgaredd yn cael ei reoleiddio gan adran 46.

